CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 10. RHIF 6.] MEHEFIN, 1910. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD.

YMADAWIAD IORWERTH VII.
Sarnicol.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.
Parch. Joseph Wood.

CONGL YR AWEN.

NAPOLEON BONAPARTE.

UCHEL SIRYDD CEREDIGION, 1910—1911.
(Gyda Darlun).

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.



ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Llyfrau Cyhoeddedig yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

Hanes Plwyfi Llangeler a Phenboyr, gan D. E. Jones. (Buddugol yn Eisteddfod Velindre). Cloth, 3s.; Post free, 3s. 4d.

Hanes Plwyf Llangynllo, gan Evan Davies, Lampeter Velfrey (Buddugol). Cloth, 2s. 6d.; Post free, 2s. 9d.

Cofiant 'Phillips, Horeb.' Gan ei fab, y Parch. T. Morris Phillips. Cloth, 2s. 6d.; Post free, 2s. 9d.

Wedrosia: Nofel Ddifyr. Buddugol yn Eisteddfod Mountain Ash. 6d.; Post free, 7½d.

Cyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Llandyssul, 1894. 4d.; Post free, 5d.

Myfyrdod mewn Mynwent. Gan Thomas Gray. Cyfieithedig gan Dafis, Castell Hywel; gyda Nodiadau gan Sarnicol. 2d.; Post free, 2½d.

Cri Carcharor dan farn Marwolaeth. Gan Dafis, Castell Hywel. 1d.; Post free, 1½d.;

PRESBYTERIAN FUND.

The Managers give notice that they are prepared to offer the following Scholarships to Students for the Ministry, tenable from October, 1910—

I. THREE GRADUATE SCHOLARSHIPS, tenable at Carmarthen College, of the value of £40 a year for three years.

II. ONE UNDERGRADUATE SCHOLARSHIP, of the value of £50 a year, tenable for two or three years (at the option of the Board), at any recognised University College in the United Kingdom.

For Particulars and Forms of Application apply to the Secretary of the Board, G. HAROLD CLENELL, Esq., 6, Great James Street, Bedford Row, London, W.C.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1910. [CYF. X. RHIF 6.

YMADAWIAD IORWERTH VII.

FORE Gwener, Mai y 6fed, gwelwn lythyrenau breision ar hysbysleni'r papurau dyddiol drwy y dref, fynegiad o'r ffaith fod y Brenin yn glaf; a gwyddwn ar unwaith fod y newydd yn golygu afiechyd pur ddifrifol. Tua'r hwyr, cyhoeddwyd *bulletin* difrifolach fyth, a sylwais wrth gyfaill ar y pryd; "Y mae'r Brenin ar ben." Cedwir ystad iechyd y teulu brenhinol, yn enwedig eiddo'r brenin, yn ofalus iawn rhag y cyhoedd. Faint y dibyna masnach gwledydd ar fywyd ac iechyd brenin Lloegr, y mae'r dyddiau diweddaf hyn wedi dangos yn dra eglur.

Fore Sadwrn, a mi eto yn gorphwys wedi llafur yr wythnos, clywn y *news-boys* yn gwaeddu rhywbeth yn y stryd, rhywbeth am y brenin mi wyddwn, ond methwn yn iawn eu deall. Gwrandewais am rai mynudau; ac yr oedd y geiriau yn ymffurfio yn fwy-fwy i'r frawddeg "*Sudden death of the King.*" Teimlwn yn brudd, gan ofni codi i ymholi. Gobeithiwn fy mod wedi camddeall; y mae marwolaeth bob amser yn fy nhristhau, hyd yn oed farwolaeth rhai nad adwaen i o gwbl. Onid oes genyf hen gyfeillion hyd y wlad, a thad a mam, a hwy hefyd yn hofran ar ororau tywyll yr amser gosodedig? Gwyddwn fod gwynt y dwyrain, a gwenwyn ar ei golyn, wedi rhoddi clwyf angeuol i ddegau o hen bobl hyd Gymru; yn wir nid oeddwn ond graddol wella fy hun ar ol ei effeithiau ysol; ac yr oeddwn yn meddwl llawer am afiechyd y brenin. Ond, dyma gnoc wrth ddrws fy ystafell wely, a merch fach y ty yn galw "*Please, Mr. Thomas, the King is dead.*" A gwyddwn ar unwaith fod bore newydd wedi tori ar hanes y byd, a nos arall newydd ddarfod ac wedi dwyn gyda hi gyfnod arall i dir diderfyn y gorffenol. Ychydig ddyddiau yn ol, clywn am Iorwerth, ac fel y tybiwn fod iechyd

ar ei ruddiau brenhinol, a gwên llawn yspryd ar ei wefusau caredig, a nwyfiant benaint addfed yn ei lygaid gwawr-las yn mwynhau ei hun yn awelon tyner a di-wenwyn gororau Ffrainc a'r Ysbaen. Canys medrai Iorwerth wneyd y gore o'r byd hwn. Yr oedd yni dynol a nwyf mwyniant iachusol yn nodweddi ei ysbryd erioed. Yr oedd yn frenin dynol iawn, ac yn ddyn brenhinol iawn, medd rhywun am dano. Ffafryn y gwledydd ydoedd; ac yn ol ysgrifenwr Ffrengig "*He was the uncle of all Europe,*" ewythr caredig, llydan ei fynwes, a gwresog ei galon, yn cymeryd teyrnasoedd gelynol ar ei liniau ac yn eu cydymod a'i gusan heddychol. Aiff i lawr drwy rodfeydd hanes fel "*Edward the Peacemaker*"—nis gwn am frawddeg Gymreig eill gymeryd lle'r geiriau swynol Seisnig.

Bu farw cyn llawn gyrhaedd y tymhor penodedig; yr oedd yn myned ar ei dri-ugain a naw. Y mae canoedd o hen bererinion hyd swydd Ceredigion, na chroesasant ffin eu hen Sir erioed, yn canu yn hoew a'u blynyddau yn llawer lluosocach na hyn. Ond nid hir oes Brenin; dim ond tri phen coronog yn hanes Prydain fu byw'n hwy. "*As happy as a King.*" Mor anghywir y ddiareb! Na, Shakespeare, fel arfer sydd wedi taro ar y gwir—"Anesmwyth gorwedd pen sy'n gwisgo coron." Nis gwelais y Brenin erioed; ni fu arnaf erioed flys i weled mawrion y byd. Hoffusach i'm golwg lygad y dydd ar goryn moel y mynydd na'r rhosyn godidocaf gyfyd ben urddasol o flaen drws y palas gorwych. Nid wyf yn sicr nad gwell genyf weled Dafy'r Torrwr Cerrig na chael golwg ar Ymherawdwr yr Almaen. Fy mai i ydyw. Yr wyf wedi treulio mwy o'm hoes yn eistedd ar garn o gerrig nag ar glustogau'r palas; ac yr wyf yn dra sicr fod fy nghyndeidiau wedi treulio mwy o'u hamser felly.

Ond teimlaf fy mod yn adnabod Iorwerth Frenin; teimlai pawb felly. Yr wyf yn sicr y buaswn yn hollol gartrefol gydag ef mewn pum munud. Buasai wedi dechreu siarad am Gymru, a gofyn i mi o ba ran o Gymru yr oeddwn yn hannu. Wrth son am Sir Aberteifi holasai fi am Aberystwyth, a gofynasai i mi a oeddwn yno wrth agor y Brif-Ysgol yn 1897. Ac wedi dechreu son am Aberystwyth, ac addysg, a Chymru; wel, buasai y Brenin yn gweled ar unwaith ei fod wedi cael gafael ar destyn y gallsem ein dau siarad am dano yn gartrefol. Yr oedd Iorwerth yn foneddwr; y boneddwr goreu yn Mhrydain; y boneddwr goreu yn Ewrob, ac felly y boneddwr goreu yn y byd. Ac yn y gair *boneddwr*, cynwysir yr holl rinweddau cymdeithasol hyny sydd yn golygu callineb, tynerwch, ac uwchlaw dim

cydymdeimlad. Y mae'r gwir foneddwr *yn meddwl am eraill* yn barhaus. A dyna Alpha ac Omega boneddigeiddrwydd; a dyna gyweirnod cymeriad Iorwerth Frenin.

Ni ddylai neb son am ffaeleddau, oni fedr ddweyd ei fod wedi concro temtasiynau ei hunan. Yr hwn sydd ddieuog, tafled yn gyntaf garreg. Y mae dwy golofn yn llyfr angel y cyfrif, yn un golofn y mae rhes y syrthiadau, yn y llall mae nifer y profedigaethau; a chymerir y ddwy golofn i ystyriaeth ddydd y prawf. Anhawdd dychmygu llwybrau'r bachgen sydd i fod yn frenin y dyfodol; y mae mil myrdd o flodau yn tyfu o bob ochr iddynt; pa ddyn fedrai dramwy drwyddynt heb dynu ambell rosyn! Fodd bynag goroesodd Iorwerth ddyddiau ieuenctyd, tyfodd yn wr, daeth yn nghyflawnder yr amser yn frenin, ac yn frenin yn ystyr uwcha'r gair. Gorseddodd ei hun yn nghalonau ei bobl, ac erys yno am oesau i ddod. Bèr fu ei deyrnasiad; dim ond naw mlynedd; ond gwnaeth fwy yn y naw mlynedd hyny nas gwnaeth ambell deyrn mewn haner cant. Drwy ei bersonoliaeth ddihafal, denodd y gwledydd, a thynodd am danynt rwymau serch.

Dydd Gwener, Mai yr 20fed, gwelodd ystrydoedd Llunden olygfa ddigymhar yn hanes y byd. Erioed nis gwelwyd gorymdaith debyg i'r hon a ddilynai arch y teyrn Iorwerth drwy heolydd dinas fwyaf y gwledydd, a mawrion y teyrnasoedd, a naw o benau coronog yn cymeryd rhan ynddi, i ddangos galar y cenhedloedd ar ol yr Heddgar Iorwerth.

Aruthrol y tyrfaoedd a fud-syllent ar yr orymdaith orwech hon; yn sylwi ar *urddas galar* nas gwelwyd ei hafal erioed o'r blaen yn hanes y ddaear. Nid galar teuluol, ond galar y gwledydd a gynyrchiolid yna; erioed o'r blaen nis gwelwyd cenhedloedd y byd yn cydwylo oddiamgylch arch un dyn.

Cludwyd y gweddillion i Windsor, ac yno'r huna Brenin a gyfrifir yn uwch na Gwilym y Gorchfygwr ac yn gydradd a Alfred Fawr. Gwenai heulwen Mai yn ogoneddus ddydd ei gladdu; yn ngwres disymwth y tymhor torrai blagur yn fyrdd o wyrddenau ar gangau'r coed; a disgleiriai cyfoeth cyntaf tymhor haf hyd ochrau'r mynyddau a mynwesau'r dyffrynoedd llydain; canai'r adar yn dangnefeddus; anhawdd credu fod angeu yn tramwy'r tir. Nid oedd arwydd galar yn natur, ond ymunai blodyn, a chornant, ac aderyn fel be bai i gyd-ganu—

"*Gwyn fyd y Tangnefeddwr.*"

SARNICOL.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

Pennod IV. (Parhad).

Y Cyfieithiad Diwygiedig.

YPETH nesaf sydd yn tynu sylw darllenydd y Cyfieithiad Diwygiedig ydyw absenoldeb y rhaniadau diystyr o hono yn benodau ac adnodau—rhaniadau ag ydynt yn fynych yn tori y cysylltiad, ac yn anurddo'r synwyr, ac felly yn creu llawer o anhawsderau i'r darllenydd. Yn y Cyfieithiad Diwygiedig mae yr Ysgrythyrau wedi eu trefnu yn ranau yn ol y synwyr, tra cedwir nifer y benod a'r adnod ar ymyl y ddalen am eu bod yn gyfleus er mwyn cyfeiriad; ac ni all neb llai na chanfod fod ystyr y Beibl yn llawer mwy cyfunol a dealladwy yn y wedd hon nag yn y Cyfieithiad Awdurdodedig.

Erys agwedd arall eto o'r Cyfieithiad i'w nodi: argreffir yr holl ganiadau a barddoniaeth, yn ffurf penillion, fel ag i ddangos ar unwaith ein bod yn ymwneyd a barddoniaeth ac nid a rhyddiaeth. Mae yn gaffaeliad mawr fod y caniadau a'r cerddi cenedlaethol ag ydynt yn wasgaredig drwy lyfrau hanesyddol y Beibl wedi eu hargraphu yn *ffurf* caniadau, a'n bod yn gwybod yr hyn ydynt, sef dyfyniadau o hen lyfrau barddoniaeth genedlaethol. Digon tebyg pe byddai i'r dyfyniad bychan o hen lyfr prydyddiaeth a roddir yn Josua x. wedi ei argraffu fel y mae yn awr, yr arbedid llawer o ddamcaniaeth drafferthus mewn perthynas i'r mwyaf dyrys o'r oll o'r hyn a elwir yn wyrthiau—yr haul yn aros yn ei yrfa. Ni fyddai i frawddeg farddonol byth gael ei chamgymeryd am adroddiad o ffaith.

Gadewch i mi yn awr i alw eich sylw at fater mwy pwysig. Pa mor bell mae y Cyfieithiad Diwygiedig yn effeithio ar gwestiynau o athrawiaeth? Yn awr, gan fod genym gyfieithiad yn rhydd oddi wrth ogwyddiad tuag at dduwinyddiaeth rhyw blaid neullduol, pa fodd yr effeithir ar dduwinyddiath y gwahanol bleidiau? Sicrheir ni gyda phwyslais arbenig gan rai, fod pob peth yn aros fel yr oedd, fod y dduwinyddiaeth iawnffyddol, duwinyddiaeth y credoau, duwinyddiaeth y blaid a eilw ei hun yn Efengylaidd, ac eiddo Eglwys Loegr yn dyfod allan o'r prawf heb dderbyn yr un niwed. "Ni wna un o'r cyfnewidiadau hyn," dywed Esgob Wordsworth, "gael yr effaith lleiaf ar y ffydd Gristionogol." "Mae yn sicr," meddai y Deon Farrar, "nad yw materion ffydd ac athrawiaeth yn cael eu cyfnewid gan y Testament Newydd Diwygiedig." Haerir gyda phob

hyfder, er cynifer y cyfnewidiadau a'r pethau sydd wedi eu gadael allan, nad oes dim wedi digwydd a ddylai achosi yr un braw, neu hyd y nod anesmwythder meddwl i'r duwinydd iawnffyddol. Ai nid oes dim wedi digwydd? I'r gwrthwyneb, yr wyf yn hòni fod llawer wedi digwydd, ac fod hyn mor wybyddus, fel mae yn ymddangos fel pe b'ai cydfradwriaeth i gadw y Cyfieithiad Diwygiedig rhag ei ddefnyddio yn ein heglwysi, am y rheswm hwn—sef ei fod yn effeithio ar y credöau. Mae hyn wedi digwydd o leiaf—ni all neb ag sydd yn alluog i amgyffred ffeithiau cysylltiedig â'r Cyfieithiad Diwygiedig mwyach ddal fod y Beibl yn anffaeledig. Yn y Testament Newydd yn unig mae y cyfnewidiadau yn y gwreiddiol, ac yn y cyfieithiad, a'r attal-nodau yn rhifo 36,191. Mewn 1,600 o fanau mae y Groeg gwreiddiol o'r hwn y gwnaethpwyd y Cyfieithiad Awdurdodedig wedi ei gyfnewid; mewn 18,000 o fanau mae geiriau wedi eu cyfnewid gyda chyfieithiad newydd, ac mae 4,600 o eiriau wedi eu hychwanegu yn y gwaith o gyfieithu. Yn gyfangwbl mae dau-ar-bymtheg y cant o eiriau y Testament Newydd wedi eu cyfnewid i raddau mwy neu lai. Wrth gwrs, allan o'r holl lu hwn o gyfnewidiadau, nid oes dim ond ychydig iawn o'r hyn a feddylir yn gyffredin wrth adranau athrawiaethol. Er hyn i gyd mae yr holl gorph o'r cyfnewidiadau yma, yn rhinwedd eu pwysigrwydd mewn rhif yn unig, yn effeithio yn arbenig ar un pwynt o athrawiaeth—hyny yw anffaeledigrwydd. Mae yn amhosibl ystyried yn anffaeledig lyfr yn yr hwn mae y cyfieithwyr diweddaf wedi ei gywiro mewn 36,000 o fanau, ac yn yr hwn yn ol y cyfieithwyr Americanaidd y mae 400 o leoedd ychwanegol lle dylid cywiro.

Sylwch ar unwaith ar ddau neu dri o bethau tarawiadol sydd wedi eu gadael allan yn y Cyfieithiad Diwygiedig. Feallai ei bod yn beth a ddisgwylid yn gyffredin fod I. Ioan v. 7 yn cael ei adael allan—"Oblegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân: a'r tri hyn un ydynt." Mae y dystiolaeth yn erbyn yr adnod hon mor gref, fel ag mae wedi cael ei rhoddi i fyny er ys llawer dydd gan amddiffynwyr mwyaf selog Athrawiaeth y Drindod. Mae y cyfieithwyr, y rhai oeddynt Drindodiaid proffesedig, i gyd ond un yn cyhoeddi yn unfryd nad yw yr adnod o gwbl yn rhan o'r Beibl, ond ei bod wedi cael ei gosod i mewn gan ryw ddisgybl gorselog i attegu ei hoff athrawiaeth, ac fel dynion gonest maent wedi ei thori allan heb ddangos iddi yr un trugaredd. Ond beth a ddywedwn wrth y rhai a haerant nad yw y ffaith ei bod wedi ei gwrthod yn gwneyd yr un gwahaniaeth i'r gred iawnffyddol? Dyma yr unig adnod yn y Beibl sydd yn dysgu Athrawiaeth y Drindod gyda pherffaith eglurdeb; ni ddywedir mewn un lle arall "y tri hyn un ydynt"; dyma brawf-destyn, ar yr hwn y mae miloedd o bregethau wedi cael eu traddodi. Fel y dywedir, ni wneir ond dyfalu neu gasglu Athrawiaeth y Drindod oddi wrth ranau ereill o'r Beibl; ni ddysgir hi yn eglur mewn un man arall. Ai nid yw felly yn gwneyd gwahaniaeth i brawf ysgrythyrol athrawiaeth, fod yr unig adnod yn yr hon ei cyhoeddid yn bendant yn awr wedi cael ei phrofi i fod yn ffugiaeth? Mae yn beth plentyn-

aidd a ffol i ddweyd fod pob peth fel yr oedd, ac nad yw y Cyfieithiad Diwygiedig wedi gwneyd yr un gwahaniaeth.

Mae ein cyfeillion y Bedyddwyr wedi bod yn arferol o gyfiawnhau eu gwrthodiad o fedydd i blant, a'u hathrawiaeth o fedydd crediniol yn unig, gyda thelerau Phylip a chyffes ffydd eunuch Candace cyn ei fedydd: "Os wyt ti yn credu â'th holl galon, ti a elli (gael dy fedyddio); ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw"—Actau viii. 37. Ond yn awr pan dry y Bedyddiwr at ei Destament Newydd, ni all gael gafael ar ei hoff adnod; nid oes iddi le yn y llawysgrifau goreu, ac mae y cyfieithwyr wedi ei chroesi allan fel ychwanegiad gau at y gwreiddiol. Nid oedd un adnod arall yn attegu mor eglur safle'r Bedyddiwr, ac etto dywedir wrthym nad yw ei gwrthodiad yn effeithio dim ar y cwestiwn!

Peth arall tra nodedig sydd wedi ei adael allan yw yr eglurhad, y cynhyrfid y dwfr yn llyn Bethesda gan waith angel yn disgyn iddo—Ioan v. 4. Dywed y cyfieithwyr nad yw yr adnod sydd yn cynhwys yr hanesyn rhamantus hwn yn un rhan o'r hanes gwreiddiol. Dyma engraifft darawiadol o'r modd y tyfodd hanes y gwyrthiau. Yr hyn a welwn yn cymeryd lle yn yr achos hwn, arweinir ni i gredu, a gymerodd le mewn llawer o achosion ereill. Yn yr hen amser ar unwaith priodolid pob peth anghyffredin, ac annealladwy ar y pryd, i ryw achos goruwchnaturiol. Yn Bethesda, fel llawer o leoedd ereill, tra adnabyddus i'r rhai sydd yn ceisio iechyd, yr oedd ffynon o'r hon yn awr ac yn y man, ond nid yn gyson, tarddai dyfroedd meddyginiaethol. Yr oedd awdwr yr Efengyl hon yn gyfarwydd â rhinweddau ffynon Bethesda, y rhai adawa i ni gasglu oeddynt i'w priodoli i achosion naturiol. Ond darfu i ysgrifenydd, yn llawn o'r yspryd sydd yn gweled y gwyrthiol mewn pob peth sydd yn anghyffredin, gymeryd y rhyddid o roddi rhywfaint o'r elfen oruwchnaturiol yn y stori hon. Yn yr achos hwn mae y llaw or-selog yn cael ei darganfod yn y gwaith o droi yr hyn sydd syml i'r hyn sydd wyrthiol. Ond yn mha nifer o fanau nad ydynt wedi eu darganfod mae digwyddiadau syml a naturiol yn mywyd yr Iesu, wedi eu hegluro fel pethau gwyrthiol? Yn y fan hon mae y cyfieithwyr wedi dangos gwyrth i ni yn ei ffurfiad ac, yn ol fy meddwl i, mae yr olygfa yn un addysgiadol iawn.

Gan basio heibio pethau ereill o bwys sydd wedi eu gadael allan, gadewch i mi alw eich sylw at gyfieithiadau diwygiedig o adranau ar y rhai y sylfaenir y ffydd Gristionogol.

Mae y Pabyddion a'r Uchel-Eglwyswyr wedi bod am hir amser yn arfer dyfynu y geiriau:—"A bydd un gorlan ac un bugail"—Ioan x. 16,—fel yn dangos na ddylai fod ond un eglwys weledig ar y ddaear. Ond cyfieithir y geiriau yn awr nid *un gorlan* ond un *ddeadell*, yr hyn sydd beth gwahanol iawn. Mae *un gorlan* yn gymdeithas weledig, yn eglwys o ddwyfol appwyntiad; ond gellid casglu *un ddeadell* allan o lawer corlan, ac o rai sydd yn wasgaredig mewn llawer o eglwysi.

Mae ein brodyr Efengylaidd am oesau wedi gwneyd llawer o'r geiriau: "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant"—Heb. ix: 22.

Mae hon wedi bod yn un o brif adnodau eu duwinyddiaeth—yn profi yr anghenrheidrwydd o dywallt gwaed yr Iesu er mwyn maddeuant pechodau. Ond ai nid yw eu hoff athrawiaeth wedi ei siglo hyd ei sylfaeni gan y cyfieithiad newydd o'r adnod; "Ac yn ol y gyfraith gallwn braidd ddywedyd y glanheir pob peth gan waed ac heb dywalltiad gwaed nid oes maddeuant." Yn awr gwelwn y gwnaethpwyd defnydd o'r geiriau nid fel o gwbl yn datgan gwirionedd Cristionogol, ond fel cerydd i Iuddewaeth. Mae Iuddewaeth yn dysgu nad oes maddeuant pechodau heb dywalltiad gwaed, ond pwynt yr ysgrifenydd yw fod Cristionogaeth yn dysgu rhywbeth llawer gwell.

Neu sylwch ar yr adnod a adroddir mor fynych i brofi Duwdod Crist. Dyma hi, y fwyaf adnabyddus o'r oll: "Duw a ymddangosodd yn y cnawd"—I. Timotheus iii. 16. Dywed y cyfieithwyr nad yw y gair "Duw" yn y fan hon "yn gorphwys ar ddigon o dystiolaeth henafol," ond dylai y geiriau gael eu cyfieithu—"Efe yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd." Ai nid yw hyn yn gwneyd gwahaniaeth i'r prawf o Dduwdod Crist? Y mae yn wahaniaeth mawr. Yn awr cydnabyddir nad yw yr un adnod bwysig a arferid ddyfynu i brofi yr athrawiaeth hon, yn brawf o gwbl, am nad yw yn dal un berthynas a'r testun.

Bydd un engraifft yn rhagor yn ddigon. Dyma'r geiriau: "Yn hyn yr adnabuom gariad *Duw*, oblegid dodi o hono ef ei einioes drosom ni"—I. Ioan iii 16. Yn ol y cyfieithiad hwn Duw oedd wedi rhoddi ei einioes drosom a marw ar y groes, ac yn yr ystyr hon y mae wedi cael ei ddefnyddio yn fuddugoliaethus fel yn profi fod Crist yn Dduw. Ond pa fodd mae y Cyfieithiad Diwygiedig yn darllen? "Yn hyn yr adnabuom gariad oblegid dodi o hono ef ei einioes drosom ni." Y ffaith ydyw fod yr hen gopiwyr a chyfieithwyr mor llawn o dduwinyddiaeth neullduol, yr hon a ddarllenent i'r Beibl ar bob achlysur dichonadwy, a phryd bynag y deuent at y rhagenw "ef" am yr Iesu, gwthient iddo eu barn dduwinyddol eu hunain ac ar unwaith newidient ef am enw gogoneddus, Duw.

Yn ngwyneb y ffeithiau hyn ac ereill cyffelyb iddynt beth ddywedwn am onestrwydd y rhai a ddywedant wrthym fod pethau yn gywir fel yr oeddent, ac na effeithir ar y gred Gristionogol yn y gradd lleiaf. Effeithir ar lawer o athrawiaethau. Nid yw y gair "Iawn" (*Atonement*) mwyach i'w gael yn y Testament Newydd; mae y gair "rhagarfaeth" wedi myned; mae y gair "damnedigaeth" wedi cael ei newid i "farn," "ein corph gwael ni" a roddir "corph ein gwaeledd," neu "corph ein darostyngiad ni," ac amddifadir y meudwy a amharchai ei gorph o'r adnod a'i cyfiawnhäi pan yn gwanhau y cnawd. Nid yw ymprydio mwyach yn cael ei orchymyn gan Grist; ac nid yw yn gorchymyn "chwilio yr ysgrythyrau." Nid yw ariangarwch mwyach yn wreiddyn pob drwg—*the root of all evil*, ond un o wreiddiau pob math o ddrygau—*a root of all kinds of evil.* Nid yw y frawddeg Drindodaidd bwysig "Y tri hyn un ydynt" yn bodoli mwyach, a dangosir nad yw dwy adnod a arferid ystyried

yn brofion cadarn o Dduwdod Crist, yn cyfeirio o gwbl at yr athrawiaeth hono. Mae y pethau hyn o bwys ac elw mawr i athrawiaeth resymol a rhyddfrydig. Yr wyf yn gwybod y gallwn yn hawdd roddi gormod o bwys arnynt, ond ar y llaw arall, gwahoddir ni i beidio gwneyd yr un cyfrif o honynt. Mae y Cyfieithiad Diwygiedig o arwyddocad athrawiaethol gwir bwysig. Mae yn tueddu i dori i lawr gulni iawnffyddiaeth, a chyfiawnha Gristionogaeth Rydd, yr hon ydym ni yn ei chredu a'i lledaenu. Mae genym ni, beth bynag, bob rheswm i fod yn ddiolchgar am y cynorthwy y mae y Cyfieithiad Diwygiedig yn roddi i ni i ddyfod i well dealltwriaeth o waith Crist a'i apostolion. Mae y sawl o honom ag ydym yn gwybod beth yw nerth a swyn geiriau, ac wedi sylweddoli drwy brofiad pa fath gyfeiliornadau mawrion ac anirnadwy y mae braidd yr oll o eglwysi'r wlad hon wedi syrthio iddynt drwy ddiffygion a gwallau y Cyfieithiad Awdurdodedig, yn croesawu gyda'r diolchgarwch dyfnaf, y Beibl y mae y cyfieithwyr wedi osod yn ein dwylaw fel cyfrol ag sydd yn rhoddi i'r darllenydd am y tro cyntaf wir feddwl yr ysgrifenwyr ysprydoledig.

CONGL YR AWEN.

BLODEU-DORCH

Ar fedd JOHN JAMES, Coedyfoel, Llandyssul, gynt o Beilibedw, Llanllwni, yr hwn a fu farw Ebrill 19eg, 1910, ar fin ei 30ain oed.

Rhwng Haul a chawod Ebrill
A'r blodau'n bêr eu sawr,
Tra Natur ar ei hennill
Gadewaist tithau'r llawr ;
Y tŷ o glai ddattododd—
Mae'n isel yn y glyn,
A'r ysbryd a ehedodd
At Dduw, i wlad mwy gwyn.

Doleni lawer dorwyd
Pan gefnaist yma'n llwyr,
Tad, mab, a phriod gollwyd
A chyfaill mâd, un hwyr ;
A'r bore, er mor llawen
Oedd côr yr adar mân,
Lleddf iawn oedd tant fy awen
Yn canu galar gân.

Arferaist yn Maesnonni
Dy "ymdrech deg" yn hir,
Ond gwnaeth dy fynych selni
It' raddol golli tir ;
Ac er y dyfal warchod
A gest yn Coedyfoel,
E fynai'r tŷ ymddattod
O hyd o hoel i hoel.

Haul bywyd i'w Orllewin
Yn gynnar iawn a roed,
Gan selio oes a'i chyfrin
Cyn deg-ar-hugain oed ;
Mae colli dy siriol deb
I ni fel nos yn drwm,
A chofio dy anwyldeb
A wna ein byd yn llwm.

Yn monwent Aberduar
Cei gysgu'th olaf hûn
Yn mysg dy geraint hygar
O'ent anwyl iawn bob un ;
Mae Natur heddyw'n deffro
O'u cwsg holl flodau'r glyn,
Gan dd'weyd—"Daw Bywyd eto
I'w deyrnas ar ol hyn."

Mae canwyll amgylchiadau
A'i goleu yn rhy wan,
Cawn olwg well ar angau
O'r dwyfol yn y man ;
Mae colli ein cyfeillion
Yn help i fyw yn well—
Er gorfod croesi'r afon
Nid yw ein cartre'n mhell.

EI DAD (D. H. JAMES).

NAPOLEON BONAPARTE:

Amheuon yn nghylch ei Fodolaeth.

A fu erioed y fath ddyn a Napoleon Bonaparte? Ymddengys y gofyniad ar ei wyneb yn wrthuni perffaith. A fu erioed y fath berson a Iwl Caisar, neu Shakespeare, neu William Ewart Gladstone? Ie, cystal gofyn hyny. Nid oes dim yn ddiogel heddyw rhag ymosodiadau yr amheuwr. Caed profiad o hyn ar law'r Sion-holwr mewn cysylltiad a'r

Unitarian Van

fu ar ymdaith yn ddiweddar drwy ranau o Gymru. Amcan mawr y Van oedd helpu i gredu; ond ceid Sion weithiau yn elyniaethus ac ymosodol iawn. Ymddygai'n amlwg fel un a dybiai ei hun yn anffaeledig a hollwybodol. Wrth gwrs ni allai fod gan bobl y Van yr un neges dderbyniol i un fel hwn. Dro arall fe'i ceid ef yn wawdus. Nid oedd pob ffurf o grefydd ond megys ofergoeledd yn ei olwg, ffug a ffoledd, ffrwyth dychymyg disail a disylwedd. Tebyg ddigon fod hwn wedi ei ddwyn i fyny ar aelwyd grefyddol—eithafol sectaraidd o bosibl—ac fel canlyniad, yn ol awgrym y ddiareb "Rhy dyn a dyrr," wedi tori pob cysylltiad a a chrefydd—wedi selio ei glustiau yn erbyn pob rheswm ac wedi cymeryd ei le eistedd ar ystol y gwatwarwr. Fe dybia ei fod wedi cael gwallau yn y dduwinyddiaeth a ddysgodd ar yr aelwyd gartref, neu yn y capel neu'r eglwys a fynychai ar y Sul, ac yn awr fe wyr ef yn well na phawb; ac er na chyffesa ei hun yn hollwybodol, mae'n ymddwyn fel y disgwylid i un o'r fath wneud. Geilw ei hun weithiau yn Undodwr, er nad yw yn credu dim a ddysgir gan yr Undodiaid. Gwna gam mawr a'r enwad drwy hyny. Un yn credu yw yr Undodwr, ar sail credu y geilw ei hun wrth yr enw. Fe gred yn Nuw, fe gred yn Iesu, fe gred mewn rhinwedd a daioni, mewn cariad a brawdgarwch cyffredinol, ac fe gred mewn anfarwoldeb; ond gwadu wna hwn, a gwadu'n haerllug iawn weithiau; gwadu, dyna ei brif nodwedd. I'r gwrthwyneb y mae cryfder crefydd yr Undodwr yn yr hyn a gred, a hawlia fod prif fanau ei ffydd yn seiliedig ar natur, ac yn gyson ag addysg y gwyddorau a holl ofynion rheswm a deall dyn. Mae'n amlwg nad oes gan wyr y Van yr un genadwri i un fel hwn chwaith, tra yn ei yspryd presenol.

Ceir un arall drachefn mewn cyflwr o amheuaeth. Ni wyr yn gywir yn mha le y mae'n sefyll. Dymchwelodd Blatchford neu rywun arall gastell ei ffydd. Mae wedi colli ei hen angorfeydd, ac yn debyg i'r llong ddiangor at drugaredd y tonau; ond nid yw yn foddlawn, nid yw yn hapus. Mae'n bosibl nad yw'n mynychu un lle addoliad yn bresenol, ond y mae ei galon yn dyheu am ryw angorfa newydd. Y mae gobaith am hwn, ac y mae'n werth i'r sawl fedr, dreio ei law arno. Nid yw amheu yn bechod. Y mae weithiau yn anocheladwy i'r ymofynwr gonest; ond y mae pob ymofynwr o'r fath yn wylaidd ac nid yn haerllug. Fe ddywed y bardd breiniol Tennyson,

Fod mewn amheuaeth onest fwy o ffydd
Na cheir yn hanes holl gredoau'r dydd.

Anffawd i ddyn yw syrthio i glais y clawdd, ond ffolineb yw iddo aros yno, a pheidio ymdrechu dyfod allan. Ie, ffolineb yw i neb ymfoddloni ar ei gyflwr amheuol. Ei ddyledswydd yw gwneuthur pob peth a fedr i orchfygu ei amheuon, a cheisio syl-

faen safadwy i'w gred. Daw ei ffydd drwy hyny yn gryfach nag erioed.* Nid oes cysur mewn amheuaeth, ac felly ni ddisgwylir fod yr amheuwr gonest yn awyddus i ledaenu ei amheuon. Ebe Goethe gynt, "'Dwy'n 'mofyn dim o'ch amheuon, y mae genyf fi ddigon fy hunan."

Ond a fu erioed y fath ddyn a

NAPOLEON BONAPARTE?

Fe dystia hanes hyny, ac yn rhyw ystyr gellir edrych ar y tystiolaethau fel rhai credadwy, ond a'u cymeryd gyda'i gilydd i gyd ymddengys yr oll yn gymysglyd iawn, mor gymysglyd yn wir fel y mae yn rhy anhawdd i'w dadrys a chael dim tebyg i stori glir a chyson am dano. Y mae yna dywyllwch, fel caddug yr Aifft hyd y nod ar bwnc

EI ENEDIGAETH.

Y stori fel y mae gan yr holl brif haneswyr yw iddo gael ei eni yn Ajaccio, yn ynys Corsica, yn môr y Canoldir, Awst 15, 1769. Dàl eraill mai stori wneud ydyw hona, nad oes yr un cofnod am neb o'r enw wedi ei eni yno ar y dyddiad hwnw, ac mae'r esgus dros gymeryd 1769 oedd er ei wneuthur yn Ffrancwr. Pe cyffesid mai yn 1768 y ganwyd ef, byddid ar unwaith yn ei amddifadu o'r anrhydedd hwnw, gan mai yn 1768 yr unwyd Corsica â Ffrainc, a dyna'r flwyddyn y ganwyd Napoleon os bu erioed y fath ddyn. I gydnabod yr anhawsder ac i geisio ei symud, fe ddywedir yn y *Journal des Debats* am Ebrill 8, 1814, mai Nicholas oedd ei enw bedydd, ac iddo ef ei hun ei newid o herwydd tybied ei fod yn rhy gommon. Yr oedd Napoleon yn enw mwy teilwng ac urddasol.

Ie, os bu erioed y fath ddyn. Dyna bwnc y testun; ac nid wyf yn gwybod i neb erioed amheu cyn i'r Archesgob Whateley yn 1818 gyhoeddi ei lyfr,

"HISTORIC DOUBTS

concerning Napoleon Bonaparte," yn yr hwn y gesyd gerbron resymau cryfion dros amheu a fu y fath ddyn. Nid amhriodol fydd adgofio un peth neu ddau yn y fan hon. Yr oedd yr Archesgob yn ddyn mawr, yn ddyn dysgedig, yn ddyn pwysig, yn ymresymwr goleu, yn awdwr llyfr ar "*Logic*"—Rhesymeg—llyfr fu'n *Text Book* yn y Colegau am flynyddau lawer; ac felly'n amlwg yn ddyn a ddylai fod yn gwybod beth oedd yn ei wneuthur. Peth arall, fe ddywedir na ddarfu i Napoleon farw hyd Mai 5, 1821,† ac os gwir hyny, efe a fu byw yn agos i dair blynedd ar ol i lyfr Whateley ddyfod drwy y wasg i brofi na fu erioed y fath ddyn. Mae'r casgliad yn naturiol fod yma, a dweyd y lleiaf, gryn lawer o gymysgedd y bydd yn anhawdd ei ddadrys yn foddhaol i amheuwr.

Fel am y Bwci-Bo, fe gymer dynion bethau yn ganiataol yn rhy rwydd, a hyny heb ystyriaeth ddigonol. Yn ddiameu y mae hwn yn un o'r gwendidau mwyaf cyffredin a berthyn i'r natur ddynol. Y gwendid hwn, ac nid dim arall, oedd y rheswm *paham* y darfu i gwestiwn

Y BRENIN SIARL YR AIL

gynt beri cymaint o drafferth i'r "Royal Society," y gymdeithas o

---

* He fought his doubts and gathered strength,
He would not make his judgment blind,
He faced the spectres of the mind
And laid them: thus he came at length
To find a stronger faith his own.

† Fe ddywedir i'w weddillion gael eu dwyn yn ol i Ffrainc yn 1840, a'u bod yn gorwedd yn awr o dan gronglwyd yr Hotel Des Invalides, yn mhlith gweddilllon y rhyfelwyr hyny a gymerasant ran yn ei fuddugoliaethau.

ddysgedigion penaf yr oes. Cwestiwn y brenin oedd — Paham nad yw pysgodyn byw yn ychwanegu dim at bwysau llestr o ddwfr, tra mae pysgodyn marw yn gwneud? Dyna'r *puzzle*, a dywedir i'r dysgedigion fod am fisoedd os nad am flynyddoedd yn ceisio dyfod o hyd i'r P'aham, a hyny yn hollol ofer. O'r diwedd, fe darawodd ar feddwl un o'r gwŷr dysgedig i ofyn iddo ei hunan—A ydyw'r peth yn ffaith? A dinystriwyd y swyn ar unwaith. Dygwyd y mater i brawf, ac fe gafwyd nad oedd. Mae'n syndod iddynt fod cyhyd cyn cofio'r hen reol Ladinaidd fod yr "An sit" yn dyfod o flaen y "Cur sit"—*A yw* y peth felly, o flaen y *Paham* y mae.

Fel yr oedd y Bwci-bo tua chan' mlynedd yn ol yn ddychryn plant yn mhob cilfach a glàn, yr oedd enw Napoleon, yr hen Fona, neu Bonapart-e, fel y gelwid ef weithiau, yn gyffelyb y pryd hwnw yn waeth na

BWGAN PLANT,

nid yn unig yn Nghymru a Lloegr—wrth basio fe gofir am yr helynt chwerthinus yn Abergwaun (Fishguard)—ond hefyd yn mhob teyrnas ar gyfandir Ewrop, gyda'r canlyniad fod yr awdurdodau yn mhob man yn cael eu cadw o hyd ar eu tŵr o wyliadwriaeth, ac o hyd yn edrych allan am help. Yr oedd y milwyr wrthi yn trin eu harfau, yr oedd y penau coronog yn crynu, yr oedd Rwsia, Prwsia, Awstria, &c., wedi clywed am y Bwgan ac am y dinystr a'r difrod oedd yn dilyn ei enw. Yr oeddynt oll yn edrych allan am help, nid yn anhebyg i'r modd yr oedd y bwgan Germanaidd cyn yr etholiad diweddaf, yn peri i Doriaid Prydain waeddi am ragor o *Dreadnoughts!*

Po fwyaf rhyfedd y byddo unrhyw beth, mwyaf anhebyg yw i fod yn wir.

Y MAE'R GORCHESTION

a gysylltir âg enw Napoleon mor aruthrol ryfedd ac mor hollol anhebyg i wir, fel pe darllenid hwy mewn rhyw hen lyfr perthynol i'r canrifoedd cyntaf nid oes amheuaeth na chyfrifid hwy yn yr un dosparth a'r storiau am Arthur y Ford Gron neu Dewi Sant, ac felly yn hollol anghredadwy. Rhoddent fodolaeth i laweroedd o ddamcaniaethau, fel y mae'r efengylau wedi gwneud, a thebyg ddigon y cawsent eu priodoli i wahanol bersonau fel awdwyr. Cawn i foneddiges yn y ganrif ddiweddaf brofi y tuhwnt i amheuaeth yn ei meddwl ei hunan,

MAI NID "DYN" O GWBL

oedd Napoleon Bonaparte, ond "enw" ar system neu gyfundrefn. Fe gadarnheir yr awgrym hwn gan yr enw ei hunan. Sylwer yn fanwl ar yr enw —Napoleon,* gair Groeg yw yn golygu Llew'r Goedwig; a Bona-parte, Lladin yw yn golygu Rhan Dda. Y mae'r enw yn myned dan sail, ac yn ddinystriol i unrhyw syniad am bersonoliaeth, a'r fath tebyg yw fod y gorchestion a briodolir i'r person tybiedig Napoleon Bonaparte yn perthyn mewn gwirionedd, os oes gwirionedd yn y mater o gwbl, i Ran Dda (Bona-Parte) o'r Fyddin Ffrengig.

"Os bu erioed," &c. Daw'r amheuaeth yn gryfach fel yr awn yn mlaen. Yn y flwyddyn 1803, darfu i ddau awdwr, yn agos yr un amser, ac ar lwybrau hollol wahanol ddarganfod mai

NAPOLEON YW'R BWYSTFIL

y sonir am dano yn llyfr y Dadguddiad, 13 : 15–18. Darllener yr adnodau yn fanwl ac yn ofalus. Wrth gwrs os Napoleon yw'r bwystfil mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o esponwyr y gorphenol yn cyfeiliorni, canys dywedent hwy mai'r Ymerawdwr Nero oedd y bwystfil. Fe'n esgusodir fe

---

* Deillia Mr. E. Cobham Brewer yr enw Napoleon o'r Eidaleg—Nabissoleone, wedi ei dalfyru—Nab'o leon', the mischievous lion, y Llew drygionus.

allai am fanylu ychydig yma er mwyn egluro'r sefyllfa. Adwaenir y bwystfil yn yr adnodau dan sylw wrth y "nod" sydd arno. Yn yr hen amser fe arferai'r meistr osod nod â haiarn poeth ar groen ei gaethwas, fel y gallai ei adnabod. Yn debyg fe awgrymir (Dadguddiad, 7 : 2, 3) am yr angel ac eraill fod nod neu "sel y Duw byw" ganddynt, i ddangos eu bod yn eiddo Duw. Cymharer Exodus 12 : 13. Er mwyn deall y cyfeiriad fe ddywedir fod angen Doethineb. Rhifedi y Bwystfil, rhifedi dyn yw, cynrychioli dyn y mae, nid drychiolaeth, nid dychymyg, er enghraifft nid yr Ymerodraeth Rufeinig olygir. Eto yn mhellach, er mwyn eglurdeb dylid cofio mai pethau diweddar mewn cymhariaeth yw y rhifnodau ddefnyddir genym ni. Llythyrenau ddefnyddid gan y Groegwyr a'r Hebreaid gynt i ddynodi rhif. Felly er mwyn cael allan y llythyrenau i wneuthur i fyny enw y Bwystfil, yr oedd yn rhaid wrth gryn lawer o ddoethineb i'w trefnu yn iawn ac yn y fath fodd ag i gyfarfod â gofynion yr adnod — "Chwe' chant a thriugain a chwech" = 666. Cymerwn, fel enghraifft, y dull oedd gan yr hen esponwyr yn gyffredin i brofi mai Nero oedd y bwystfil. Caiff y darllenydd dreio ei law yn gyffelyb os gall, i brofi fod enw Napoleon yn ffitio'r gofynion. Cofier nad yw y llythyrenau *e* ac *a* ddim yn y wyddor Hebreig. Mae y rhifnodau* 666 yn cynrychioli NeRON KeSaR, yr Ymerawdwr Nero, fel hyn :—

N R O N K S R
50 + 200 + 6 + 50 + 100 + 60 + 200 = 666

Ond odid nad yw'r darllenydd yn cofio clywed yr hanes am Napoleon a'r modd yr ymdarawodd *tua Moscow.* Mai 9, 1812, mae'n cychwyn gyda byddin aruthrol o ryw bum can mil o filwyr, blodeu Ffrainc, y fyddin ardderchocaf oedd y byd erioed wedi weled hyd hyny. Cyrhaedda Moscow Medi 14, yn nghanol rhew ac eira, ac wedi cyrhaedd mae'n cael fod y Rwsiaid wedi gosod y ddinas ar dân ac wedi ffoi, gyda'r canlyniad i fwy na haner y fyddin, hyny yw, mwy na dau cant a haner o filoedd o bobl, farw o oerfel a newyn ! Ceisier sylweddoli'r ystyr, ond darllener yr hyn a ddywed un o bapyrau New Orleans, fod y Senator Douglas wedi cael allan na losgwyd Moscow erioed. Gwnaeth Mr. Douglas y darganfyddiad fod yn Moscow yn bresenol ddim llai na chwe' chant o eglwysi eto yn sefyll, a'u hanes yn cyrhaedd yn ol ugeiniau, a rhai ganoedd o flynyddau cyn yr amser y dywedir i Moscow gael ei llosgi, 1812.

Os bu y fath ddyn, meddaf eto, mae'n amlwg ei fod yn dalp eithafol o anghysonderau. Beth feddyliwn ni am ddyn balch, creulawn, uchelgeisiol, yr hyn y rhaid addef oedd Napoleon yn ol yr hanes am dano, dyn y gellir cyfrif iddo fod yn achos marwolaeth i ganoedd o filoedd o'i gydgreaduriaid ; beth feddyliwn ni, meddaf eto, am ddyn felly yn defnyddio geiriau fel hyn—Yr wyf yn teimlo'r Anfeidrol oddi fewn i mi ; ac ar dro arall—Fe basia fy enaid i hanes ac i goffadwriaeth ddiddiwedd dynolryw, ac yn y gogoniant mi a fyddaf yn anfarwol !

Dyma reol dda i ddyn yn ei ymchwyliad am y gwirionedd : Os bydd dau osodiad yn gwbl groes i'w gilydd, mae'n rhaid fod un o honynt yn anwiredd, ac fe all y ddau fod. Beth am Napoleon yn wyneb y rheol hon ? Y mae'r hyn ddarllenwn ni am dano mewn llyfrau Ffrengig a llyfrau Seisnig, mor eithafol groes i'w gilydd ag y mae'n bosibl iddynt fod, fel y mae'n llwyr amhosibl i ni gredu fod y ddau yn wir. Hawddach edrych ar y ddau gydag amheuaeth.

---

* Gelwir y rhifnodau ddefnyddir genym ni heddyw yn "Arabic Numerals." Ni ddaethant i arferiad cyffredin yn Mhrydain hyd yr adeg y dyfeisiwyd yr argraffwasg gan Caxton.

Er hyn oll a hyn oll, er cryfed yr amheuon, er anhebygoled rhai o'r pethau crybwylledig, ac er anhawdded profi i foddlonrwydd y rhai na chredant ond ar dystiolaeth clust a llygad a llaw, yr wyf fi—y fi sy'n ysgrifenu'r llinellau hyn—ar ol clorianu'r amheuon a'r tebygolion yn ol gore medr y rheswm a'r deall a feddaf, yn rhwym o gyfaddef fy mod yn berffaith argyhoeddedig fod sicrwydd digonol — moral certainty — sicrwydd tebyg i'r hyn sy genym y bydd fory yn canlyn heddyw,—fod yna ddyn gwirioneddol wedi bod y tu cefn i'r enw Napoleon Bonaparte, dyn fu'n ddychryn Ewrop ar ddiwedd y ddeunawfed a dechreu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ar ol cael ei orchfygu gan Wellington yn Waterloo yn 1815, a fu farw yn alltud yn Ynys Sant Helena yn 1821.

Wedi'r cwbl, ni fedra i byth gredu fod neb, na Whateley, na neb arall mewn gwirionedd, erioed wedi ameu fod y fath ddyn a Napoleon wedi bod a byw ; a mwy na hyny, ni allaf lai na chredu y gwna'r un cyffelyb resymau, a'r un cyffelyb sicrwydd—moral certainty—ateb y pwrpas gyda golwg ar unrhyw gyffelyb amgylchiad. Cymerwn

IESU GRIST,

er engraifft. Amheuir ei fodolaeth gan rai heddyw, a gall fod rhai pethau yn amheus i rai personau yn yr hanes sy genym ni am dano, megys yn hanes Napoleon. Dywedir na anwyd ef y Nadolig, ei bod yn fwy tebyg iddo gael ei eni yn y gwanwyn ; na anwyd ef yn Bethlehem, mwy tebyg iddo gael ei eni yn Nazareth ; na anwyd ef 1910 o flynyddau'n ol, ei fod yn fwy tebyg iddo gael ei eni bedair blynedd cyn hyny. Ond sylwer, os cafodd ei eni o gwbl, dyna sydd o bwys. Eto fe ddywedir mai nid enwau personol yw Iesu a Crist, mai ystyr Iesu yw Iachawdwr, ac ystyr Crist yw Eneiniog. Eto amheuir ei wyrthiau, megys yr amheuwyd gorchestion Napoleon. Mae gwyrth, medd dynion, yn golygu tori deddf, yr hyn sydd amhosibl. Haerir nad oes gwyrthiau yn dygwydd, ac am hyny nad ydynt wedi dygwydd erioed ; fod gwyddoniaeth wedi setlo'r pwnc am byth. Wrth gwrs, os oes y fath beth a gwyrth wedi cymeryd lle erioed, y mae wedi cymeryd lle yn unol â rhyw ddeddf, megys y mae'r awyren wrth esgyn i'r awyr yn ymddangosiadol yn croesi deddf dysgyrchiant. Ond er gwaethaf yr holl anhawsderau, a'r holl chwedloniaeth, yr wyf fi yn credu yn Iesu Grist ; yn credu, er na allaf brofi ; yn credu â'm holl galon. Nid oes dim wedi peri mwy o syndod i mi na'r ffaith fod rhai dynion heddyw yn ameu a fu y fath ddyn erioed ; tra'r ymddengys i mi fod ei enw yn sefyll allan y mwyaf eglur, y mwyaf amlwg o neb yn hanes yr ugain canrif diweddaf, ac ni fedraf yn fy myw weled sut yn bosibl y mae deall y canrifoedd hyny heb ganiatau sylweddolrwydd ei enw a'i bersonoliaeth ef—y *reality* mwyaf yn hanes dynoliaeth !

Q.Q.

NI ry'r Arglwydd ar d' ysgwydde
Drymach baich na ellych odde ;
Ond fe ddengys ryw ddiangfa
Pan fo'r baich yn gwasgu dryma.

UCHEL SIRYDD CEREDIGION, 1910-11.

Fel y mae dyn yn esgyn o ris i ris yn ngwahanol yrfaoedd bywyd y mae dyddordeb y cyhoedd ynddo yn graddol gynyddu, ac erbyn y cyrhaedda safle uchel ac anrhydeddus, fel y mae gwrthrych y nodiadau hyn yn awr wedi gwneud, fe geir fod y dyddordeb wrth fagu nerth wedi troi yn syched angerddol i wybod y cyfan ellir am dano—pwy yw ei deulu a'i dylwyth?—pa fath un yw ei fywyd anghyhoedd?—beth yw ei bolitics?—beth yw ei ddaliadau duwinyddol?—i ba enwad y perthyna?—a beth yw ei *hobbies?* Y mae yn yr atebion i'r gofyniadau hyn, yn eu perthynas ag Uchel-Sirydd presenol Ceredigion, ddefnyddiau erthyglau o ddyddordeb cyffredinol, a gobeithir y gwel rhai o oreugwyr llen Cymru, amryw o'r rhai sydd yn mysg edmygwyr yr Uchel-Sirydd, yn dda hulio bwrdd YR YMOFYNYDD o dro i dro yn ystod blwyddyn ei swyddogaeth, trwy droi y defnyddiau hyn a'u hathrylith yn ddanteithion i feddwl ac yspryd y darllenwyr. Nis gallaf fi a'm llaw anghelfydd ac anghyfarwydd ond yn unig ei longyfarch yn wresog a chywir ar ei ddyrchafiad, a dymuno iddo o'm calon, Duw yn rhwydd. Er hyny, am y boneddwr sydd a'i enw yn ymguddio yn mhenawd hyn o ysgrif, a'i bersonoliaeth yn gosod swyn a bri ar y swydd o Uchel-Sirydd eleni, mi ddymunwn sibrwd hyn yn nghlust darllenwyr YR YMOFYNYDD, yn barchus, yn foneddigaidd, eto yn glir—

EI ADNABOD YW EI GARU.

Y mae yn cydgyfarfod yn ei bersonoliaeth y nodweddion hyny sydd yn enill ein serch, ein parch, a'n hymddiriedaeth yn llwyr. Yr wyf yn datgan hyn oddiar adnabyddiaeth agos o hono, fel un sydd wedi mwynhau y fraint o gymdeithas bersonol agos a chyson ag ef am lawer o flynyddoedd. Cyfarfyddais ag ef gyntaf yn y Swper Mawr a drefnwyd gan berchenogion y *Carmarthen Journal* i'r gohebwyr yn Nghaerfyrddin tuag ugain mlynedd yn ol. Gwr i'w hoffi oedd Mr. Pughe Davies, golygydd galluog a doniol y *Journal*, ond yr wyf yn sicr fy mod yn teimlo yn anwylach fyth tuag ato ar ol hyny am iddo ein cyflwyno i'n gilydd. Yr wyf yn cofio yn dda ein cydgyfarfyddiad ar y Guildhall Square, ac yn myned gyda'n gilydd, un ar y dde a'r llall ar yr aswy i'r golygydd cyfeillgar. Yr argraff wnaeth ar fy meddwl y pryd hwnw oedd fod y chwareus, y caredig, a'r cywir yn elfenau bywiol yn ei gymeriad, ac y carwn ymwasgu yn nes ato mewn cyfeillgarwch. Wedi hyny, tuag unflynedd ar bymtheg yn ol, cymerodd iddo ei hun ymgeledd gymhwys a daeth i'r Cei i fyw. Mewn canlyniad daethom i gyffyrddiad amlach ac agosach a'n gilydd, ac yn nghwrs amser, yr wyf yn cymeryd yn ganiataol ei gydsyniad caredig i ddweyd hyn, aeth ein hadnabyddiaeth o'n gilydd yn gyfeillgarwch diffuant. A swm fy adnabyddiaeth i o hono yw fod ynddo y rhagoriaethau personol a moesol hyny sydd yn rhwym o enill serch, parch ac ymddiriedaeth y sawl ddelo i gyffyrddiad agos ag ef Y mae ynddo y tueddiad naturiol cryfaf at garedigrwydd, ysprydolrwydd meddwl llawn dyhead am safle uchel yn nheyrnas y da a'r pur, ac ymgysegriad personol llwyr i wasanaeth gwirionedd. Ni wyr neb ond ei gyfeillion agosaf, a'r sawl a'i derbynia, helaethrwydd ei ddaioni, grym ei awydd i ragori yn y pethau berthynant i'w fywyd ysprydol, a llwyredd ei ymgysegriad i'w ddelfryd uchel. Y mae ynddo y cymhwysderau disgleiriaf i addurno y swydd uchel y mae Ei ddiweddar Fawrhydi y Brenin wedi gweled yn dda i'w alw iddi eleni, a phe digwydd-

ai i'w Fawrhydi George V. weled yn dda dalu ymweliad a Cheredigion yn nghwrs y flwyddyn a gosod anrhydedd adnewyddol ar ei was, gall fod yn sicr yn ei feddwl na wna estyn ei gledd breninol byth dros ddeiliad mwy teilwng a theyrngarol, na neb mwy tebyg i ddal i fyny wir urddas y safle.

Disgyna yr Uchel Sirydd o linach faith lawn o deilyngdod, yr hon sydd wedi cael ei haml anrhydeddu yn nghwrs y pum canrif diweddaf a sylw breninol. Dolenau cryfion yn y gadwyn faith oedd Hugh Llwyd, yr hwn a fu bedair gwaith yn Uchel Sirydd (1575, 1584, 1594, a 1599), a Dafydd Llwyd ei frawd, o Gastell Hywel, yr hwn oedd aelod seneddol cyntaf Ceredigion (1545), a Dafydd Llwyd o Alltyrodyn, a'i fab Evan Lloyd, Uchel Siryddion, ac eraill lawer, a'r oll yn ddynion a lanwasant eu lle yn anrhydeddus yn eu dydd yn nghylchoedd cyhoeddus y sir. Y nesaf at yr Uchel Sirydd presenol, o'r un âch ag ef, i ddal yr un swydd (1907—8) yw yr enwog feddyg o Gaerdydd, y Dr. Lynn Thomas, C.B., J.P., F.R.C.S. Bydd yn ddyddorol gan lawer wybod nad oes gan y ddau foneddwr hyn ond un hen-hen famgu cydrhyngddynt, sef Mary Jones o'r Fairdrefawr. Yr oedd hi yn fam i Margaret Jenkins, Llawrcwrt, hen famgu yr Uchel Sirydd, ac yn fam i Thomas Jones, Cwmgyfeile, hen dadcu Dr. Lynn Thomas, ac yn fam hefyd i John Jones, Gellifaharen, disgynyddion yr hwn ydynt heddyw yn dal safleoedd uchel a pharchus yn nghanolbarth Ceredigion.



JOHN THOMAS, YSW., Y.H.
Vrondolay, Ceinewydd.

Ganwyd yr Uchel Sirydd yn Mhenbontshan yn 1861. Ei rieni

oeddynt Jenkin ac Elizabeth Thomas, Rhydceir, Pontshan. Bu ei dad farw pan oedd ef yn ieuanc, ond y mae ei fam, dynes anwyl iawn, wedi byw i weled oedran teg, ac yn treulio nawnddydd ei hoes yn wir ddedwydd yn Nghlettwr Villa, yn nhawelwch dyffryn arddunol y Clettwr. Yn 1894 ymunodd mewn glân briodas ag Elizabeth Jane Evans, boneddiges ieuanc o briodoleddau rhagorol, a edmygir ac a berchir yn fawr, sef unig ferch ac unig blentyn y diweddar David Evans, Ysw., J.P., o'r Vrondolay, Ceinewydd, boneddwr hybarch, o ddeall cryf a chwaeth uchel, yn disgyn o du ei dad a'i fam o deuluoedd henafol a da. Yr oedd yn nai i'r diweddar W. Hughes, M.A., Llanddewi Aberarth, a John Hughes, o Benbryn; ac yr oedd ei dad, Evan Evans, Ysw., o'r Noyadd, Ceinewydd yn nai i'r diweddar Barch. Evan Lewis, o Milwich, Swydd Stafford, oddiwrth yr hwn yr etifeddodd efe ystad y Noyadd yr hon yn bresenol sydd yn meddiant a mwynhad yr Uchel Sirydd a'i briod hawddgar. O du ei mam eto y mae Mrs. Thomas yn disgyn o deulu rhagorol. Enw ei mam oedd Mary, a merch ydoedd i'r diweddar Rees Jones, Pwllffein, boneddwr adnabyddus yn y byd llenyddol Cymreig o dan y llen-enw Amnon, ac fel awdwr Crwth Dyffryn Clettwr, cyfrol gan mwyaf yn y mesurau rhyddion, a chyfrol yn pefrio gan ddoeth-eiriau, synwyr miniog, a gwreiddiolder, o'r hon y cawsom yn gymharol ddiweddar argraffiad destlus dan olygiaeth y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, nai enwog yr awdwr.

Yn y flwyddyn 1904 gosodwyd John Thomas, Ysw., canys dyna enw priodol yr Uchel Sirydd, ar faingc ynadol Ceredigion. Buddiol i'r Faingc fu ychwanegu un o'i ffyddlondeb, ac o gymhwysderau mor uchel a'r eiddo ef, i eistedd arni. O ran ei berson, yn allanol, y mae yn ddyn tàl, tàl iawn a lluniaidd, o darawiad hardd a charedig—gwir ddelw o fewnol ddyn y galon. Nid yw efe yn un parablus iawn ar bynciau duwinyddol, ond yr wyf yn lled dybio mai ffrwyth naturiol cynheddfau iach calon wrteithiedig yw ei dduwinyddiaeth. Nid duwinyddiaeth llyfrau yw yr eiddo ef ond adnabyddiaeth brofiadol o Wrthrych addoliad ei galon. Mi wn drwy gyfathrach agos ag ef fod yn ei enaid ddyhead anfarwol am yr aruchel, ac i ddod i'r *gwir* aruchel rhaid goresgyn y materol a'i gael yn yr ysprydol yn unig, yn myd uwch yr enaid. Nid yw ceinder pethau tlysaf y ddaear ond cysgod gwanaidd o ogoniant sylweddion ysprydol. Beth yw lliw, ffurf, ac arogl y rhosyn tlysaf yn ymyl calon bur, lawn cariad? Onid yr un law ddwyfol ag sydd yn prydferthu y lili sydd hefyd yn llunio enaid ar ddelw yr Hwn a'i gwnaeth. Y mae y "deddfau" a dybir sydd yn gweithio yn y byd naturiol ac yn y byd ysprydol yn ffynonellu yn yr un ewyllys ddwyfol—trefniant Tad yw y cyfan. Y mae hyn yn fy adgofio i'r Parch. R. J. Jones, M.A., geisio genyf dalm o amser yn ol i esbonio y gair "gras" iddo. Nid wyf yn cofio i mi wneud ar y pryd, ond y mae "esboniad" yn ymgynyg yn awr yn nghylfin yr adnod hono o eiddo Paul, "Canys ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn." Ai nid oes awgrym ynddi fod *economy* y byd naturiol a'r byd ysprydol yn gyffelyb, neu yr un, gan y dywedir fod gras Duw yn gweithredu yn gyffredinol (*universal*)? Er nad deddf yw gras y mae yn ymddangos oddiwrth ei gyffredinolrwydd ei fod yn gweithredu yn ol deddf. Os felly, y mae nodd y byd llysieuol, gwaed y byd anifeilaidd, a gras y byd ysprydol yn gwahaniaethu yn unig yn nghylch eu gwasanaeth. Ond er fod gras yn gweithio allan brydferthwch amrywiol yn mywyd dyn wrth ddeddf, eto y mae dyn yn fwy na'r llysieuyn, yn fwy na'r anifail, y mae dyn yn

ORUCHWYLIWR.

Gall ef ddewis tyfu, blodeuo, a dwyn ffrwyth, a gall beidio. Gall osod delfryd uchel neu isel o'i flaen fel y

byddo yn dewis. Heb hyn nid oes teilyngdod nac anheilyngdod mewn dim a wna nac a feddylia. Wel, i gymhwyso y gwyrad ymddangosiadol yma, ni wn am neb a delfryd uwch, na neb sydd a'i ddelfryd yn fwy cyson ger bron ei lygaid, yn ymollwng yn fwy ewyllysgar i'w sugndyniad, yn ateb yn fwy parod i'r alwad "Dring i fyny yma," na gwrthrych yr ysgrif hon. Nid efe gan hyny yw y gwr i esgeuluso y cyfleusderau rydd ysprydeg i ddeffro, a chadw yn effro, ac i raddau sylweddoli y dyheadau cryfion sydd yn goruwchreoli ei fywyd, ac nid yw y tystiolaethau diamheuol gywir sydd yn sail i'r wyddoniaeth aruchel yma yn gadael dewis i neb sydd wedi eu darllen a'u hystyried a meddwl diduedd i'w credu neu beidio. Y maent wedi eu sefydlu ar graig o ffeithiau, ac y mae ymdrechion rhai o bapyrau Llundain i'w dymchwelyd yn chwerthinllyd. Y maent yn hawlio cred ac ymlyniad gwyddonwyr blaenaf yr oes. Y mae nos materoliaeth yn diflanu yn gyflym, ac nid oes neb yn dal gwyneb siriolach at wawr y dydd newydd nag Uchel Sirydd Ceredigion. Nid wyf yn awgrymu mai materolwr oedd ef yn flaenorol, ond fe ellid awgrymu mai rhodio wrth ffydd yr oedd gynt, fel Abraham, "heb wybod i ble yr oedd yn myned," ac nid wrth olwg fel y gwna yn awr, er nad ydyw eto ond cyfddydd. Mor bell ag wyf wedi deall, crefyddol yn unig yw cynwys y gair "duwinyddiaeth" ganddo ef. Nid yw yn un sydd wedi cymeryd dyddordeb yn y cyfundrefnau duwinyddol, a'r dadleuon anfuddiol a chwerw a gynyrchwyd ganddynt, a pha ryfedd hyny yn mherthynas ag un o'i ddaliadau gwleidyddol ef? Iddo ef y mae caethiwo'r meddwl wedi bod erioed yn gyfystyr a chaethiwo y corph, a phan oedd credoau yn gwasgu dynaf dyna yr adeg pan oedd byw yn drymaf tasg i ddyn. Rhyddid i ddyn i gynyddu ar ei well, dyna ei wleidiadaeth ef, ac y mae yn gymaint deddf iddo ef yn y byd ysprydol ag ydyw yn y byd naturiol. Nid yw yn chwanog i fywyd cyhoeddus, ac y mae hyny yn golled resynol i'r Sir. Arweinia fywyd teuluaidd tangnefeddus a phur yn nghymdeithas ei anwyl briod. Nid oes dau mwy dedwydd yn nghwmni eu gilydd, a chynes i ymwelydd yw aelwyd Vrondolay. Cymer hi, fel yntau, y dyddordeb mwyaf dwys yn y delfryd aruchel sydd megys angor ei bywyd y tu fewn i'r llen. Wrth dewi, eiddunwn iddo ef yn ei swydd anrhydeddus flwyddyn ar ei hyd y bydd melus gofio am dani ganddo ef a'i briod—blwyddyn gynyrchiol o bob da i'r Sir a'r Uchel-Sirydd.

EDMYGYDD.

[Am fenthyg y darlun o'r Uchel Sirydd, sydd yn nglyn â'r erthygl hon, dymunwn yn ddiolchgar gydnabod caredigrwydd y Mri. Duncan a'i Feibion, Caerdydd, perchenogion y "South Wales Daily News."—GOL.]

WRTH FYNED I GYSGU.

Iti Dad, eto dodaf—ogoniant
Ac yna mi gysgaf;
Ac wedi nos codi wnaf,
Am Dduw eilwaith meddyliaf.—EBEN FARDD.

MARWGOFION.

EBRILL 3, Mrs. Eleanor Davies, Lleinau Cottage, Pencarreg, yn 85 mlwydd oed. Teimlai Mrs. Davies yn ddiweddar ei bod wedi ei digoni â hir ddyddiau, a dymunai am fyned adref cyn bo hir rhag iddi fyned yn faich iddi hi ei hunan, ac yn neillduol rhag iddi fyned yn faich ar neb arall, a chafodd yn ol ei dymuniad heb ond ychydig gystudd. Merch ydoedd i'r diweddar Dafydd Williams, o'r un lle, — saer maen wrth ei alwedigaeth, ond un a ystyrid yn enwog yn ei ddydd am ei annibyniaeth a'i graffder meddyliol mewn gwleidyddiaeth a chrefydd—a gweddw y diweddar John Davies (Teifiwyson), o'r un lle. Cafodd Mrs. Davies ei geni mewn cyfnod yn hanes y byd pan nad oedd manteision addysg a diwylliant meddyliol ond cyfyngedig iawn, ac yn neillduol felly i'r werin yn gyffredin, ond ni fedrai pob anfanteision guddio o'r golwg ei galluoedd cynenid a'i thebygolrwydd amlwg i'w thad, ac ni chladdodd ei thalentau yn y ddaear, ond gosododd hwynt allan ar lôg mewn gwaith a gwasanaeth. Yr oedd hi yn un o sylfaenwyr mwyaf brwdfrydig a blaenllaw yr achos Undodaidd yn Ty'nrheol, ac wedi hyny yn Brondeifi, Llanbedr, ac ni thynodd ei llaw oddiar yr aradr ac ni edrychodd yn ei hol o'r cychwyn hyd derfyn eithaf ei thaith ; ac er nad oedd yn berffaith, mwy nag eraill, y mae hi er wedi marw eto'n llefaru. Gadawodd un chwaer, nithod, ac amryw neiaint, ac un o honynt yw y Parch. David John Williams, Killinchy, Iwerddon, heblaw perthynasau eraill mewn galar. Claddwyd ei gweddillion yn medd ei phriod yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. John Davies.

EBRILL 4, yn 41 oed, Sarah, anwyl briod William Jones, Clifton Hill, Pontshan, gan adael priod, pump o blant, mam, brawd, a pherthynasau eraill i alaru ar ei hol. Un eiddil o gyfansoddiad oedd Mrs. Jones erioed a bu am flynyddoedd meithion megys yn pabellu ar lan yr afon, ac eto nid gorchwyl hawdd oedd ffarwelio a hi. Os nad oedd ar yr aelwyd i weithio yr oedd yno i hyfforddi a chynghori, yr hyn a wnaeth gyda doethineb ac addfwynder mawr, a bu y plant yn hynod dyner o honi. Dysgwyd hwynt yn foreu i gadw tŷ a bod yn drefnus, a'n gobaith ydyw y bydd meddwl am eu mham, am ei geiriau a'i chynghorion, am ei hamynedd a'i thynerwch yn help iddynt i fyw yn ol llaw—yn help i fyw fel y carai iddynt fyw. Bydded i'r priod, yr hwn a amddifadwyd o dad a gwraig o fewn i ddeuddydd i'w gilydd, ac i'r plant sydd wedi colli mam drefnus a rhadlawn, a'r perthynasau eraill gael nerth i gario eu croes mewn modd a ddyga fendith iddynt. Claddwyd y Iau canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

EBRILL 8, John Herbert, Queen's Arms, High Street, Llanbedr, yn 59 mlwydd oed. Mab ydoedd i'r diweddar Isaac a Hannah Herbert, Pisgah, plwyf Llanarth. Torwyd ef i lawr mor sydyn, ac heb ond ychydig ddyddiau o gystudd, fel mae'n anhawdd rywfodd cyhoeddi y ffaith fod John Herbert wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Mae blynyddau lawer bellach oddiar pan y daethom i adnabyddiaeth o hono gyntaf, a phan oeddem ein dau yn gydmarol ieuanc, a hyny yn ardal Llanbedr ; ac yr ydym yn cofio yn dda am ei wasanaeth parod i ni yr adeg hono, a pharhaodd ei garedigrwydd a'i ffyddlondeb hyd ddiwedd ei daith, pryd bynag y byddai galwad am danynt, ac mae'n flin genym feddwl nad oes cwrdd i fod mwy ar y llawr â'r cyfaill ffyddlon hwn, ond mae'n dda genym feddwl am gael cwrdd hwnt i'r afon.

Ydyw, mae teimlad cyfaill wrth golli cyfaill yn deimlad archolledig. Ond mae teimlad gwraig pan yn colli ei phriod, yn nghyd a'i ofal a'i amddiffyn, a phlant wrth golli tad, yn myned i dir rhy gysegredig i gyffwrdd ond ychydig âg ef, a gwell yw tewi gyda dywedyd eu bod wedi colli priod ffyddlon a thad tyner. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. H. P. Atkins (W.).

EBRILL 12, yn hynod o sydyn, cymerodd marwolaeth Mrs. Hannah Jacob, anwyl briod Mr. Samuel Jacob, Cwm Macwydd, Llanfihangel-ar-Arth, le, yn 46 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn ddynes o synwyr cyffredin cryf; ei gorchwyl oedd gwarchod ei chartref a'i wneud yn gysurus. Yr oedd hefyd yn ddynes addfwyn, ddidwrw, a charedig i bawb o'i chwmpas. Hanai o deulu parchus iawn o'r ddwy ochr. Merch ydoedd i'r diweddar William ac Anne Jones, Wern Newydd, Llanfihangel-ar-Arth, y rhai oeddynt fawr eu sêl dros yr achos Undodaidd yn Pantdefaid, ac yn arwain bywyd teilwng fel y cyfryw. Gadawodd briod ac un mab, 13eg oed, pedwar brawd ac un chwaer, a llu o berthynasau i alaru ar ei hol. Er garwed yr hin, ymgasglodd tyrfa fawr i dalu y gymwynas olaf iddi. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent brydferth Pantdefaid y Sadwrn canlynol i'w marwolaeth. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. J. T. Hughes, Ficer Llanfihangel-ar-Arth. Pregethwyd yn effeithiol iawn yn nghapel Pantdefaid gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandyssul.—UN HOFF O'R TEULU.

EBRILL 17, yn 52 mlwydd oed, Mrs. Jane Baxter, Van Hotel, Caerphili. Merch ydoedd yr ymadawedig i Mr. Timothy Jenkins a Mrs. Mary Jenkins, Felinrhiwbren, gynt o Felincwm Factory, plwyf Llanarth. Bu yr ymadawedig mewn gwasanaeth gyda'r diweddar Barchedig William Rees, Rhydygwin, pan yr oedd y gwr hwnw yn byw yn Mynach Villa, Cribyn. Ymaelododd y pryd hwnw yn nghapel Cribyn, a bu yn ffyddlon gyda'r achos dros ystod tymor ei arosiad yno. Wedi hyny symudodd i Gastell Nedd, ac ymbriododd er's tua un mlynedd ar ddeg yn ol. Bu yn wael ei hiechyd am tua blwyddyn. Dygwyd ei chorff yn ol i gladdfa ei pherthynasau yn Llanaeron. Gwasanaethwyd ar ddydd ei hangladd gan Ficer Llanaeron. Gadawodd briod, tad a mam, pump brawd a phedair chwaer i alaru ar ei hol. Duw'r nef fyddo yn nodded iddynt, ac a'u dyddano yn awr eu trallod.

EBRILL 19, yn 29 oed, Johnny James, Coedfoel, Llandyssul. Mab ydoedd yr ymadawedig i Mr. D. H. James, Beilibedw, Llanllwni, a bu yn cartrefu y rhan fwyaf o'i fywyd priodasol gyda'i briod yn Nghoedfoel lle y derbyniodd bob tynerwch a gofal. Perthynai iddo nodweddion lawer; ei adnabod oedd ei hoffi a'i barchu. Er o gyfansoddiad egwan, eto fe wnaeth ei ran yn selog a ffyddlon, a hyny yn mron hyd y diwedd. Nid oedd ei le yn y capel nac yn yr Ysgol Sul yn wag tra y parhaodd ei nerth. Yr oedd o ddeall da, o dymer addfwyn a dymuniad cywir yn llywodraethu ei galon. Llanwer bywydau ein pobl ieuainc ni a chyffelyb anian. Dydd Sadwrn dilynol i'w farwolaeth daeth tyrfa fawr yn nghyd i dalu'r deyrnged olaf o barch i'w goffadwriaeth. Claddwyd yn mynwent y teulu yn Aberduar. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. Arthur Thomas, John Davies, ac E. O. Jenkins, yn y capel gan y Parchn. D. James, Rhydbont, W. T. Francis, cynweinidog Aberduar, ac ar lan y bedd gan y Parch. D. Wiliams, Capel Noni. Gadawodd weddw ieuanc a phlentyn, tad, brodyr a chwiorydd a pherthynasau eraill mewn galar mawr o'i golli. Nerth a gaffont i alaru fel rhai a gobaith mawr. Dydd Sul, Mai 5ed, yn Pantdefaid, cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol iddo a phregethwyd gan y gweinidog.

EBRILL 24, yn 39 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Hughes, priod Mr. Evan Hughes, Corner Shop, Dihewyd. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i'r

diweddar Mr. Evan Williams, Nantygwynfan, Ciliau Aeron, a Mrs. Margaret Williams, yn awr o Blaenpant, Dihewyd. Y darfodedigaeth oedd yr afiechyd a'i symudodd mor gynar, a bu yn gwaelu am tua blwyddyn o amser. Un o'r menywod mwyaf tawel a hawddgar ydoedd. Yr oedd ei hawddgarwch yn gymhwysder mawr ynddi fel siopwraig, ac yn tynu llawer o gwsmeriaid. Ac nid oedd ei hawddgarwch yn gyfyngedig i'r siop, ond yr oedd yn naturiol gariadus, fel yr oedd hi y mwyaf parod bob amser i gydymdeimlo a chynorthwyo pan y byddai amgylchiadau rhywrai yn yr ardal yn gofyn am hyny. Bydd ardal Dihewyd yn llawer tlotach hebddi. Llanwodd ei chylch fel gwraig a mam yn ffyddlon, yn dyner a darbodus. Cadwai mewn golwg bob amser yr amcan o wneud ei theulu yn ddedwydd, a chadwodd ddedwyddwch yn y teulu cyhyd ag y gallodd. Yr oedd yn aelod ffyddlon er pan yn ieuanc gyda'r Annibynwyr yn Dihewyd. Claddwyd yr Iau canlynol yn mynwent Capel Dihewyd, ac er fod yr hin yn rhyfeddol o wlyb daeth nifer luosog yn nghyd o barch iddi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. B. Carolan Davies, Tynygwndwn ; pregethwyd yn y capel gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin, yr hwn hefyd gyflawnodd y gweddill o'r gwasanaeth ar lan y bedd. Gadawodd briod, tri mab, mam, a dau frawd mewn galar dwys ar ei hol. Duw'r nef fyddo yn agos atynt i'w cysuro a'u nherthu yn y brofedigaeth lem.

MAI 8, yn 83 oed, Daniel Davies, gynt Spite, Mydroilyn. Adnabyddid ef yn gyffredin fel Daniel yr Arch. Bu yr ymadawedig yn nychu am gryn amser pryd y gofalwyd yn dosturiol am dano gan ei gymydogion—John a Nell Jones, Crosshands. Treuliodd ran hirfaith o'i oes yn nghymydogaeth Mydyroilyn, ac er nad oedd grefyddwr selog i ymddangosiad, eto perthynai iddo lawer o nodweddion gwerth eu hefelychu a'u byw. Y dydd Iau dilynol hebryngwyd ei weddillion i orphwys yn mynwent eglwys Dihewyd. Gwasanaethwyd a phregethwyd mewn modd effeithiol iawn yn y tŷ cyn cychwyn gan yr Hybarch John Davies, Alltyplacca ; ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parchn. Stephen Jones, Dihewyd a B. Jenkins, Mydroilyn. Heddwch i'w lwch.

MAI 8, Sarah, anwyl briod John Jones, Rhydysais, Talgarreg, yn 71 oed. Gwanaidd neillduol oedd iechyd yr ymadawedig ers blynyddoedd lawer. Bu'n pabellu'n hir ar lan yr afon a mynych y meddyliodd ei chyfeillion fod ei hamser wedi dod i fyny, ond rhywfodd daliai ati i fyw a hyny er syndod mawr i'w chymydogion. Corff egwan oedd ganddi ar y goreu a phan gawsai ychydig wythnosau o gystudd edrychai yn hynod eiddil ond yr oedd ganddi ysbryd bywiog—eithriadol fywiog, a bu ei hysbryd yn help iddi lawer tro i gael y trechaf ar ei chystudd. Er i'w chymydogion yn eu meddwl ffarwelio a hi amryw droion byw wnaeth hyd y dydd uchod pryd y ffarweliodd gan adael priod a dau frawd oedranus, pedwar o blant, llu o wŷrion, perthynasau eraill a chyfeillion mewn galar. Nis gallwn lai na chydymdeimlo a'r priod sydd wedi colli un a fu yn cydfyw ag ef am wyth a deugain o flynyddoedd, a gobeithiwn y ca ef a'r galarwyr i gyd nerth i gario eu croes mewn ffydd ac ymddiriedaeth. Yr oedd Mrs. Jones yn aelod selog a ffyddlawn yn Capelyfadfa er fod ei sedd yn herwydd ei hafiechyd yn wag er ys llawer blwyddyn. Claddwyd y Iau canlynol yn Capelyfadfa a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins ac R. C. Jones, Llanbedr.

MAI 9, Het Helena, baban bychan David a Mary Hannah Davies, Tanybryn, Gorsgoch, yn 15 mis oed. Gobeithio y ca y rhieni ieuainc, y rhai na allant lai na galaru ar ol colli un mor dlos, nerth i alaru yn gymedrol ac yn hyderus. Claddwyd y Iau canlynol yn Capelyfadfa a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

" Ni ddaeth y teg flodeuyn hyn
A gadd mor syn ei symud
Ond prin i ddangos pa mor hardd
Yw blodau gardd y bywyd."

MAI 8, Rachel Jones, Garden Cottage, Llanwnen, yn 72 oed. Ni fu ei hiechyd yn dda trwy'r gauaf diweddaf; eto bu ei chystudd olaf yn gymharol fyr, a'i marwolaeth yn anisgwyliadwy. Gadawodd dri brawd a thair chwaer mewn hiraeth ar ei hol; a diamheu y gwel y teulu yn Garden Cottage ei lle yn wag iawn am hir amser. Tra y caniataodd ei hiechyd iddi, bu yn fynychydd cyson o'r addoliad yn Capelygroes, a gwelir eu lle yn wag yno hefyd. Dydd Iau canlynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes gan dyrfa luosog. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

MAI 17, yn 76 mlwydd oed, Hannah, anwyl briod Thomas Davies, Blaenllain, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur i glywedigaeth tyrfa fawr gan y gweinidog. Gadawodd ei phriod, pump o blant, a llawer o wyrion mewn galar dwys ar ei hol. Nerth a gaffont i alaru'n gymedrol, ac i barotoi i fyned ar ei hol.

MANION AC HANESION.

TALIADAU:—Sylwer fod tal yn yn ddyledus gyda'r rhifyn hwn. Hyderwn y gwna'r Derbynwyr a'r Dosbarthwyr ymdrech i dalu gyda derbyniad y rhifyn. Achwyna rhai Dosparthwyr mai difater iawn yw rhai yn y cyfeiriad hwn. Llunier i gall haner gair.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL—Fel y gwelir oddiwrth yr hysbysiad yn y rhifyn hwn cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn Mrondeifi, Llanbedr, Mehefin 21 a 22. Dymunem adgofio Tanysgrifwyr ynghyd ag Eglwysi i ddanfon eu cyfraniadau i'r Trysorydd mor fuan ag sydd yn bosibl.

Traddodir yr anerchiad bore Mercher, gan y Llywydd, y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a phregethir y bregeth gan y Parch. Simon Jones, B A., Abertawe. Bydd hefyd yn bresenol, fel cynrychiolwyr y *Ministerial Fellowship*, y Parchn. C. J. Street, M.A., Ll.B., Sheffield, a George Evans, M.A., Gorton, a phregethir ganddynt. Disgwylir hefyd i fod yn bresenol holl weinidogion y Cyfundeb Cymreig.

Estyna Eglwys Brondeifi yn nghyd a'r Gweinidog y croesaw gwresocaf i holl weinidogion a chynrychiolwyr yr eglwysi ac eraill.—T. A. T. Ysg.

COLEG CAERFYRDDIN — Dymunem alw sylw arbenig ein pobl ieuainc at hysbysiad a welir ar amlen y rhifyn hwn gan y Presbyterian Board. Cynygiant ysgoloriaethau gwerthfawr i ymgeiswyr am y weinidogaeth Gobeithio y bydd hyn yn symbyliad ac yn gefnogaeth i'n pobl ieuainc i gyflwyno eu hunain i waith y weinidogaeth.

Dymuna'r Bwrdd Presbyteraidd hefyd estyn gwahoddiad i'r gweinidogion ac eraill i gyfarfod blynyddol Coleg Caerfyrddin yr hwn a gynhelir dydd Mercher Mehefin 29. Dymunwn ar ran y gweinidogion i ddiolch yn garedig am y gwahoddiad hwn.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL. — Drwg genym orfod gohirio cyhoeddi adroddiad yr uchod hyd y Rhifyn nesaf.

PANTDEFAID. — Dydd claddedigaeth y Brenin cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol yn Mhantdefaid pryd y daeth tyrfa fawr yn nghyd o

bob enwad. Yr oedd yn bresenol Uchel Sirydd Ceredigion, John Thomas, Ysw., Vrondolay, yn ei wisg swyddogol. Pregethwyd gan ei gaplan, y Parch. Arthur Thomas, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth defosiynol gan y Parch E. O. Jenkins, Canwyd yn mhlith eraill, emyn dewisol y diweddar Frenin, "Yn nes fy Nuw i Ti," yr hwn, gyda llaw a gyfansoddwyd gan Undodwraig, Mrs. Sarah Flower Adams. Ar y diwedd canwyd yr Anthem Genedlaethol "Duw Gadwo'r Brenin." Cyfeiliwyd gan Miss Jones, Brynowen a Miss Evans, Alltyrodyn Arms.

ALLTYPLACCA.—Cynaliwyd Cymanfa Ysgolion yn y lle uchod dydd Llun, y 23ain o Fai. Aeth yr ysgolion drwy eu gwaith yn y drefn ganlynol:—Alltyplacca—Marc xiii., yn cael eu holi gan y Parch. D. Evans; Llanbedr—Ephesiaid—gan y Parch. D. Evans; Capelygroes—Luc x.—gan y Parch. J. Davies; Caeronen—Actau xi.—gan y Parch. R. C. Jones. Yn y boreu holwyd y plant yn yr ail safon gan Miss Davies, Llwynifan Cottage; yn y prydnawn yn ngwaith y safon gyntaf gan Miss Evans, Penynant. Aeth yr oll o'r ysgolion drwy eu gwaith yn rhagorol. Yn yr hwyr cafwyd Rehearsal dan arweiniad Mr. Hefin Williams.

PONTYPRIDD.—Mercher ac Iau, y 4ydd a'r 5ed cynfisol, cafwyd cyngherdd plant llwyddianus o dan arweiniad medrus Mr. Rees Howells (Alaw Cynon). Y darn y tro yma oedd "*Giant's Castle.*" Cyfeilyddwyd yn feistrolgar fel arfer gan Mrs. John Lewis. Teimlwn yn ddiolchgar iawn iddi hi a'r arweinydd am eu gwasanaeth ac hefyd i Mrs. J. Jones, Miss Volk, a Mr. Ben Davies. Gwnaeth pawb eu gwaith yn rhagorol. Cafwyd tê y ddwy noson yn flaenorol i'r gyngherdd, a nos Fercher yr oedd tê i aelodau y Band of Hope am ddim. Daeth nifer dda yn nghyd ar y ddau amgylchiad, a theimlai pawb eu bod wedi cael llawer o fwynhad ac adeiladaeth.——Bore Sul, y 17eg cynfisol, cafwyd anerchiad rhagorol gan y Cynghorwr Peter Wright, Casnewydd, ar "Wir gynydd y ddynoliaeth." Fel y gwyr pawb bron y mae Mr. Wright yn gorphorol yn un o'r dynion cryfaf yn y byd. Y mae hefyd yn gryf o ran ei feddwl a hyny drwy hunan-ddiwylliant. Gwnaeth ei anerchiad argraff ddofn ar y nifer luosog ddaethant i wrandaw arno. Y mae wedi addaw talu ymweliad a ni eto ar y Sul cyntaf yn Mehefin.——Y mae Mr. W. H. Fiddian wedi ymgymeryd a'r gwaith o roddi cyfres o Lantern Lectures. Testun y gyntaf oedd "Awr gyda'r Microscope," a thestun yr ail "Charles Dickens." Y maent o fudd a dyddordeb neillduol i'r plant, a theimlwn yn ddiolchgar iawn i Mr. Fiddian am ei garedigrwydd; hefyd i Mr. Percy Bowden am ei gynorthwy gyda'r "Lantern."

CWMBACH.—Nos Fawrth, y 12fed o Ebrill, cynhaliwyd gwasanaeth gyda'r amcan o ledaenu goleuni ein cenadwri. Aeth y Parch. M. Evans, Highland Place drwy y ran ddefosiynol, a thraddodwyd anerchiad gan y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., Pontypridd, ar Undodiaeth a'i Chynydd. Siaradodd Mr. L. N. Williams, Y.H., ychydig eiriau i'r perwyl fod eisiau rhagor o fywyd ac ymdrech yn mhlith Undodiaid. Os am lwyddo rhaid i ni weithio. Bwriedir cynal cyfarfod cyffelyb eto yn mhen tua mis o amser. Gobeithio coronir yr ymdrechion a llwyddiant.

CYMANFA YSGOLION RHANBARTH LLANDYSSUL.—Cynhaliwyd yr uchod eleni yn Capel y Fadfa dydd Sul, Mai 22ain, ac oedd yn Gymanfa lwyddianus iawn. Daeth aelodau y pedair ysgol, sef Llandyssul, Pantdefaid, Llwynrhydowen a Chapel y Fadfa ynghyd yn gryno; yr oedd y capel yn orlawn a phawb mewn hwyl dda. Dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn gan T. A. Thomas, yr hwn hefyd a holodd ysgolion Capel y Fadfa a Llwynrhydowen oddiar Luc 19. Yna holwyd y ddwy ysgol arall gan E. O. Jenkins oddiar Ioan 5. Y gyfeilyddes oedd Miss Ellen Thomas, Capel y Fadfa, ac arweinwyr y canu Mr. David Davies, Pantdefaid a Mr. J.

Penry Lewis, Llandyssul, a chyflawnodd y tri eu gwaith yn ddymunol iawn. Yn yr hwyr cafwyd pregeth gyfoethog iawn—pregeth amserol a'i llond o apel, gan Arthur Thomas, ar y testun "Ein dyledswydd tuag at y gwasanaeth crefyddol." Gobeithio y bydd i'r bregeth a'r ysbryd yn yr hwn y traddodwyd hi symbylu llawer i gyflwyno eu hunain megys o'r newydd i waith ein heglwysi a'n hysgolion. Cymanfa hapus ydoedd ac ni fedrem lai na llawenhau wrth wel'd y fath dorf yn bresenol. Yn ymyl y Gymanfa gawn ni benderfynu bod yn ffyddlon a gweithgar. Diolch i gyfeilliou Capel y Fadfa am y ddarpariaeth helaeth wnaethant ar gyfer yr angenion corfferol.

FATHER ISAAC — Yr oedd yn yr Ysgol yn Mhont Sian tua 1870-1872, wr ieuanc yn myned dan yr enw uchod. Nid bob amser y deuai i fyny i ofynion ei athraw mae'n debyg. Weithiau deuai i'r ysgol yn ddiweddar, byddai a'i wers yn hollol amharod. Un bore, yn ddiffygiol yn y ddau bwynt, cyfarchodd ei athraw, y Parch. T. T. ef fel cyn :—

Pa beth a ddaw o'r Tad?
Mae pryder gwlad yn gofyn;
Fe aiff a Grotius* yn ei law
I'r byd a ddaw—Beth wedyn?

Atebodd Isaac ar unwaith,

Daw Gabriel yno'n union deg,
A naw neu ddeg o'i frodyr,
A chwyd ei lef yn nghanol mawl
Wel dyma dd—l o lyfr!

Adroddid iddo hefyd ar achlysur tra thebyg ateb fel hyn :—

Meddylies cyn cychwyn o gartre'n y bore,
Mae rhywbeth fel yna fuasai'r cwestiyne;
Mae'n rhaid i chwi fadde, Syr, a mine droi dalen,
Mae arswyd ar fenaid i weled y wialen!

Parotoi i fod yn offeiriad oedd Isaac a llwyddodd i fyned i Goleg St. Bees, ac wedi gorphen ei yrfa yno, urddwyd ef yn gurad yn Sir Fon lle bu farw tua'r flwyddyn 1885. Mab ydoedd i Evan Davies, clochydd, Llangynllo. Ganwyd Isaac ef tua'r flwyddyn 1840.

GWYL DDEWI YNTE GWYL DEWI? Mri. Gol. Yr wyf yn darllen llythyrau S. gyda phleser ac adeiladaeth bob amser, a meddyliaf nad yw ei lythyr diweddaf yn syrthio yn fyr o'r gore o honynt. Dibwys iawn fodd bynag yw'r peth wyf fi am gyfeirio ato yn bresenol. Daw pwnc o ramadeg i fewn dybiaf yn mhenawd y llythyr hwn, a charwn ddeall beth yw y rheol. Mi wn am fferm o'r enw Gelliddewi, ac fe wyr ambell i ddarllenydd am Gapel Dewi. Eto, paham y dywedir Alexander Fawr, a phaham—rhyfeddach fyth—yr arferem ddywedyd Mary Bach Pwll-y-geletsh? Adwaenwn Mary, a chlywais ei bod yn haner chwaer i Nathan Dyfed. Pan y dywedwn John Evans, Eglwys Bach, nid yw'r Bach yn cyfeirio at faint yr eglwys, ond cyfeirio y mae at y nawdd sant, enw'r hwn oedd Bach.—Q.Q.

PA un ai gwrthrychau tosturi ynte rhywbeth arall yw y bobl hyny sy' fel y Y.M.C.A. yn cau drws yn erbyn yr Undodiaid am na allant yn gydwybodol ddweyd eu bod yn credu yn "Nuwdod" ein Harglwydd, er eu bod yn barod i addef y credant yn ei "Ddwyfoldeb." A ydyw rhyw wahaniaeth dadansoddol o'r fath yn fater o gymaint pwys ag i'w gwneud yn amhosibl i gael undeb agosach a brodyr sy'n gwnend yr oll a allant i brysuro Teyrnas y Crist. "Beth ydyw ystyr addoli Crist?" ebe Robertson o Brighton un tro, "Ei alw yn Dduw; i ddweyd Arglwydd, Arglwydd? Na, addoliad yw'r cariad dyfnaf y dichon dyn ei roddi—galwer ef wrth ba enw bynag fyner. Y mae llawer i Undodwr, fel Channing, wedi addoli, tra yn ei alw yn edmygedd yn unig; a llawer i Gristion uniongred, sy'n galw Crist yn Dduw yn ol gofynion y Dduwinyddiaeth gywiraf, wedi rhoddi iddo ddim ond gwarogaeth deallol oer."

---

* Llyfr o waith Hugo Grotius.

ORIEL COLEG CAERFYRDDIN.

O DAN OLYGIAETH

DR. E. PAN JONES, M.A.,

YN CAEL EI GYNORTHWYO GAN Y

Prifathraw W. J. EVANS, M.A., ac ereill.

Cynwysa hanes yr holl Fyfyrwyr, o bob Enwad, fu yn y Coleg o 1792 hyd 1899, gyda 271 o Ddarluniau Athrawon a Myfyrwyr.

Mae Byr-Gofiantau i'r oll o'r Myfyrwyr Undodaidd wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg gan y Prifathraw Evans. . .

284 o DUDALENAU CROWN QUARTO, WEDI EI RWYMO MEWN LLIAN HARDD } **Pris, 7s. 6c.; cludiad yn rhad, 7s. 11c.**

Gyrer yr Archebion i'r Cyhoeddwyr—

Joseph Williams & Sons, Swyddfa'r 'Tyst', Merthyr.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Llywydd.....Y Parch. LEWIS WILLIAMS, Rhydygwin.
Is-Lywydd.....Y Parch. D. G. REES, Penybont.

..... CYNHELIR .....

CYFARFODYDD BLYNYDDOL

Yr uchod eleni yn MRONDEIFI, LLANBEDR, ar ddyddiau MAWRTH a MERCHER, MEHEFIN 21 a 22. . .

Estynir y croesaw gwresocaf gan weinidog ac eglwys Brondeifi i weinidogion a chynrychiolwyr eglwysi ac eraill i'r cyfarfodydd hyn.

Bydd trefniadau y cyfarfodydd fei y canlyn :—

DYDD MAWRTH, am 5 o'r gloch.....Y Pwyllgor Arianol.
" " 6 " .....Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
DYDD MERCHER, am 9 o'r gloch.....Pwyllgor y Gymdeithas.
" " 10.30 " .....Anerchiad y Llywydd.
" " 2 " .....Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
" " 6 " .....Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Dalier sylw fod y Pwyllgor yn cael ei wneud i fynu o weinidogion pob eglwys sydd yn casglu at y Gymdeithas, un cynrychiolydd oddiwrth bob un o'r eglwysi hyny, yn gystal a chyfranwyr o 2/6 ac uchod. Os am ddwyn unrhyw fater ger bron y Pwyllgor, ymoheber ar unwaith â'r Ysgrifenydd. Cesglir fel arfer yn yr holl gyfarfodydd.

T. ARTHUR THOMAS, Ysgrifenydd.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Economy and Refinement applied to everything for the Furnishing and equipment of the Home.

Catalogue, Estimates or Special Designs, Free of Charge.

INTERIOR DECORATING
a Speciality.

Ben. Evans & Co.

SWANSEA. LTD.